# 2. Ospiynau Cymorth: hawliau goroeswyr VAWDASV sy’n fudwyr



# Cyflwyniad

Mae bod yn destun rheolaeth fewnfudo yn aml yn ei wneud yn anoddach i oroeswyr VAWDASV geisio cymorth, gadael perthynas o gam-drin neu gam-fanteisio, a chael cymorth. Fodd bynnag **nid** yw hynny'n golygu nad ydynt yn gymwys am unrhyw gymorth statudol.

Mae'r adran hon yn egluro'r prif lwybrau ar gyfer cyrchu arian ar gyfer llety a chymorth i fudwyr sy'n oroeswyr ac sy'n destun rheolaeth fewnfudo. Y rhain yw:

- Cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd a'r Rheol Trais Domestig
- Cymorth Lloches y Swyddfa Gartref
- Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol
- Cael gwared o'r amod NRPF trwy wneud cais 'newid amod caniatad' (change condition of leave)

## Pwerau Dros Dro ar gyfer Awdurdodau Lleol: COVID-19 ac "Everyone In"

Ym Mawrth 2021 fe eglurhaodd yr Uchel Lys bod gan awdurdodau lleol y pwer i roi llety i rywun ag NRPF sydd fel arfer ddim yn gymwys ar gyfer cymorth digartrefedd a chymorth gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn arbed bywydau trwy leddfu effeithiau'r pandemig Covid-19. Golyga hyn, cyn belled a bod Covid-19 yn argyfwng iechyd cyhoeddus, ni fedr adrannau cartrefi/digartrefedd y cynghorau sir wrthod rhoi llety i rywun ar sail diffyg pwer cyfreithiol i helpu rywun gydag NRPF.

Mae'r farn ar gael yma; am esboniad llawn gweler wefan NRPF Network.

## Cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol – 'rhwyd diogelwch i bawb'

I ddechrau, mae'n bwysig tynnu sylw at y diffyg ymwybyddiaeth o'r **ddyletswydd ychwanegol** ar y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru (nid yn Lloegr) i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion (yn ogystal â theuluoedd â phlant) **lle bo angen er mwyn atal cam-drin neu esgeuluso**. Mae hyn yn gosod Cymru ar wahân i Loegr gan ei fod yn golygu nad oes rhaid i'r anghenion gofal a chymorth y mae'n ddyletswydd ar y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru eu diwallu godi o'r 'bregusrwydd' (vulnerabilities) a eglurir yn y Rheoliadau Cymhwysedd (e.e. afiechyd meddyliol / corfforol, oedran, defnydd o sylweddau). **Mae risg o brofi cam-drin neu esgeulustod pe na bai cymorth yn cael ei ddarparu yn ddigon i ysgogi'r ddyletswydd hon.**

## Cyflwyniad

Fel y nodwyd yn Rhan 1, nid yw cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei gyfrif yn arian cyhoeddus. Mae hyn yn golygu, cyhyd â'u bod yn bodloni'r **meini prawf cymhwyso** ac **nad ydynt wedi'u heithrio** rhag cyrchu cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol dan ddeddfwriaeth arall, bod pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo **yn cael cyrchu cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol**.

Mae'r adran hon yn egluro **dyletswyddau** awdurdodau lleol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion unigol a theuluoedd. Mae hefyd yn egluro **pŵer** yr awdurdod lleol i ddarparu cymorth a llety interim/brys tan fod yr asesiad wedi'i gwblhau a chynllun cymorth wedi'i greu.

**Noder bod y dyletswyddau a'r pwerau a bennir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gymwys i awdurdodau lleol Cymru yn unig.** Y ddeddfwriaethau berthnasol i awdurdodau lleol Lloegr yw'r *Care Act 2014* a'r *Children Act 1989*.

### Asesu anghenion

Yn ôl *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, **rhaid** i awdurdodau lleol gynnal asesiad o'r oedolyn, plant/plentyn, a/neu ofalwr lle **gallai** fod ganddynt anghenion gofal a chymorth.[1] Mae hwn yn drothwy isel iawn ar gyfer ysgogi'r ddyletswydd i asesu. Mae'r ddyletswydd hon yn fandadol ac yn codi beth bynnag yw eu statws mewnfudo.

1 O dan adrannau 19 [oedolion], 21 [plant] a 24 [gofalwyr]

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud yn glir "Ni ddylai absenoldeb cais mewnfudo atal asesiad rhag cael ei gynnal na chymorth interim rhag cael ei ddarparu yn ôl yr angen." (Clymblaid Ffoaduriaid Cymru a Llywodraeth Cymru, 2020).

## Darparu Cymorth Interim

Mae gan awdurdodau lleol y **pŵer** i ddiwallu anghenion boed asesiad o anghenion neu asesiad ariannol wedi'i gwblhau ai peidio.[2] Er **nad yw hyn yn ddyletswydd**, does dim byd i'w hatal rhag darparu'r cymorth.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir na "ddylai cymorth gael ei wrthod am y rheswm hwn [statws mewnfudo ansicr neu gyfyngedig] yn unig" (Clymblaid Ffoaduriaid Cymru a Llywodraeth Cymru, 2020).

Ymhellach, gallai methu â darparu cymorth dorri hawliau'r teulu dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol os ydynt yn debygol o beidio â bod â dewis arall ond dychwelyd at y cyflawnwr/wyr, fyddai'n arwain at driniaeth annynol a diraddiol yn erbyn Erthygl 3 y Confensiwn.

## Darparu Gofal yn dilyn Asesiad o Anghenion Gofal a Chymorth

### Plant

Mae gan awdurdodau lleol **ddyletswydd** i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant sy'n bodloni'r meini prawf yn y Rheoliadau Cymhwysedd neu lle bo'n angenrheidiol i atal (risg o) gam-drin neu esgeuluso.[3] Wrth ystyried y ffordd orau i ddiwallu anghenion plant, mae rhaid iddynt dalu sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn *gan deulu'r plentyn*, i'r graddau y mae gwneud hynny'n gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn.[4] Ymhellach, ceir dyletswydd i gynnal cyswllt teuluol - unwaith eto, cyhyd â bod hynny'n hyrwyddo llesiant y plentyn.[5]

Yn amlwg, ni fyddai methu/gwrthod diwallu anghenion gofal a chymorth rhiant y plentyn nad yw'n cam-drin yn llesol i fuddiannau'r plentyn. Byddai hyn yn torri Erthygl 3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Byddai hefyd mewn perygl o dorri hawl dynol y plentyn/plant a'r fam i fywyd teuluol dan Erthygl 6 Siarter Hawliau Dynol Ewrop. Felly, os asesir bod gan blentyn anghenion gofal a chymorth, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i fam / gofalwr y plentyn hefyd, hyd yn oed os na asesir bod gan y fam anghenion gofal a chymorth cymwys.

2 O dan adrannau 36 [ oedolion ] , 38 [plant] a 45 [gofalwyr]
3 O dan adran 37 o'r Ddeddf.
4 O dan adran 6(4) o'r Ddeddf.
5 O dan adran 39 o'r Ddeddf.

## Oedolion

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru **ddyletswydd** i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion sy'n bodloni'r meini prawf yn y Rheoliadau Cymhwysedd.[6]

Fodd bynnag, **adran 35 (3) (b) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** yw'r fwyaf pwysig i'w nodi a dylai sicrhau bod y rhan fwyaf o oroeswyr VAWDASV sy'n fudwyr yn gallu cyrchu rhwyd diogelwch gwarchodaeth a chymorth. Mae'r isadran hon yn gosod **dyletswydd** arunig ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion os **ystyrir ei fod yn angenrheidiol i ddiogelu'r oedolyn rhag cam-drin neu esgeulustod neu risg o gam-drin neu esgeulustod**.

## Cymhwysedd am Gymorth

Mae'r unig gyfyngiadau ar awdurdodau lleol o ran darparu cymorth i'w gweld yn adran 46 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac Atodlen 3 *Deddf Cenedligrwydd Mewnfudo a Lloches 2002*. Dyma nhw:

Mae adran 46 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn atal awdurdodau lleol rhag diwallu angen **os yw'r angen yn codi yn unig oherwydd bod yr unigolyn yn ddiymgeledd neu effeithiau corfforol (neu'r effeithiau corfforol a ragwelir) bod yn ddiymgeledd**. Mae hyn yn golygu bod rhaid bod yn fwy agored i niwed uwchlaw digartrefedd a diffyg arian (rhestrir y rhain yn y Rheoliadau Cymhwysedd, **neu risg o gam-drin neu esgeulustod** pe na bai'r cymorth yn cael ei ddarparu).

Mae atodlen 3 Deddf Cenedligrwydd Mewnfudo a Lloches 2002 yn gwahardd pum categori o bersonau rhag derbyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol:

a. Person sydd â statws ffoadur tramor (a'u dibynyddion);
b. Gwladolion gwladwriaethau EEA ar wahân i'r DU (a'u dibynyddion);
   **ers Ionawr 1 2021, mae'r eithriad hwn dim ond yn gymwys i wladolyn EEA sy'n 'torri cyfreithiau mewnfudo' yn unig h.y. nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan fydd gwladolyn EEA wedi sicrhau statws preswylydd sefydlog, statws preswylydd cyn-sefydlog, neu ganiatâd i ddod i mewn fel ymwelydd.** (gweler NRPF Network)
c. Ceiswyr lloches aflwyddiannus sydd wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau ymadael (a'u dibynyddion);
d. Person sydd yn y DU yn anghyfreithlon nad yw'n geisiwr lloches;
e. Person a gaiff eu trin fel ceisiwr lloches dim ond am fod ganddynt blentyn sy'n ddibynnydd ac sydd wedi cael ardystiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol nad yw'n cymryd camau rhesymol i adael y DU yn wirfoddol (hefyd yn cynnwys dibynnydd y cyfryw berson).

6 O dan adran 35 (3) (a) o'r Ddeddf.

**Fodd bynnag, ceir pedwar eithriad i'r gwaharddiad hwn.** Nid yw'r gwaharddiad yn atal:

a. Darparu cefnogaeth a chymorth i ddinesydd Prydeinig;
b. Darparu cefnogaeth a chymorth i blentyn;
c. Ymarfer pŵer neu berfformio dyletswydd os, ac i'r graddau y mae ei berfformio'n angenrheidiol er mwyn osgoi torri:
    i. Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu
    ii. Hawliau dan gytuniadau'r UE.

Mewn geiriau eraill, hyd yn oed os yw'r goroeswr yn dod i mewn i un o'r "categoriau eithriedig", efallai y bydd awdurdodau lleol yn dal i fod dan ddyletswydd i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth os oes angen er mwyn osgoi torri hawliau dan y Confensiwn dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n werth pwysleisio mai'r unig ffordd i awdurdod lleol wybod a oes ganddo ddyletswydd yw drwy gynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth – a all arwain wedyn at Asesiad Hawliau Dynol.

Os caiff y meini prawf hyn eu bodloni (h.y. bod yr angen am gymorth yn codi o fwy na bod yn diymgeledd, AC nad yw statws mewnfudo'r goroeswr yn cael ei gynnwys yn yr eithriad NEU caiff ei gynnwys, ond byddai methu â darparu cymorth yn peryglu ei hawliau dynol, yna **mae'r dyletswyddau at y goroeswr dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr un fath ag unrhyw wladolyn y DU. Byddai methu â diwallu ei hanghenion yn fethiant o ran dyletswyddau'r awdurdod lleol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**.

# Y Rheol Trais Domestig a'r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd

Mae rhai goroeswyr cam-drin domestig sy'n fudwyr yn gymwys i ymgeisio am ganiatâd amhenodol i aros yn y DU dan y Rheol Trais Domestig (Domestic Violence Rule – DVR).

Byddai cais llwyddiannus am ganiatâd amhenodol i aros (ILR – indefinite leave to remain) yn rheoleiddio statws mewnfudo'r goroeswr ac yn eu galluogi i weithio, astudio a chyrchu budd-daliadau lles a chymorth tai.

Os yw goroeswr yn gymwys ac yn bwriadu ymgeisio am ganiatâd amhenodol i aros dan y Rheol Trais Domestig, *ac yn ddiymgeledd ac angen cymorth ariannol*, gall wneud cais dan y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd am ganiatâd i aros dros dro am 3 mis wrth ymgeisio am ganiatâd amhenodol i aros. Mae'r caniatâd hwn i aros yn disodli caniatâd blaenorol yr ymgeisydd fel priod/partner sifil. Yn ystod y cyfnod hwn o dri mis, bydd y goroeswr yn gallu cael arian cyhoeddus a budd-dâl tai.

Pwysig iawn: Os nad yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am ganiatâd amhenodol i aros dan y Rheol Trais Domestig yn ystod y cyfnod hwn o dri mis, pan fydd y caniatâd yn dod i ben ystyrir bod yr ymgeisydd wedi aros yn rhy hir yn y DU ac felly 'heb ganiatâd' i fod yma.

## Pwy sy'n gymwys i ymgeisio am ganiatâd amhenodol i aros dan y Rheol Trais Domestig?

Unigolion lle mae eu caniatâd mwyaf diweddar i ddod mewn/aros yn y DU yw fel priod, partner sifil neu bartner dibriod rhywun sydd yn Brydeinig neu sydd â chaniatâd amhenodol i aros (does dim ots os yw'r fisa wedi dod i ben yn barod); lle'r oedd eu perthynas yn cefnogi eu hanghenion byw a llety ar adeg cyflwyno'r fisa; ac lle y mae eu perthynas wedi chwalu oherwydd trais domestig.

## Beth ddylwn i ei wneud os wyf i'n cynorthwyo rhywun rwyf i'n credu y gallai fod yn gymwys ar gyfer y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC) dan y Rheol Trais Domestig?

**PEIDIWCH** â dweud wrth y goroeswr y dylai wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros dan y Rheol Trais Domestig.

**Dim ond cyfreithwyr neu gynghorwyr mewnfudo rheoledig sy'n cael cynghori unigolion ar eu hopsiynau mewnfudo.**

Yn lle hynny, cynigiwch helpu'r goroeswr i drefnu apwyntiad gyda chyfreithiwr mewnfudo rheoledig i gael cyngor ar eu hopsiynau mewnfudo.

Sicrhewch bod unrhyw gais am y DDVC yn cael ei e-bostio yn hytrach na'i bostio.

## Beth sy'n digwydd os yw'r Swyddfa Gartref yn cymryd mwy o amser na hyd y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC)i wneud penderfyniad ar y cais am ganiatâd amhenodol i aros?

Os yw'r ymgeisydd yn cyflwyno cais am ganiatâd amhenodol i aros cyn diwedd y cyfnod o dri mis o ganiatâd dros dro i aros, caiff y caniatâd hwn i aros ei estyn yn awtomatig hyd nes bydd y Swyddfa Gartref yn gwneud penderyfniad ar y cais am ganiatâd amhenodol i aros. Gelwir hyn yn "ganiatâd Adran 3C" (gweler Practical Law: Section 3C Leave). Diffinir y gyfraith ar hyn dan adran 3C *Deddf Mewnfudo 1971*. Ambell waith ni fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n deall bod y goroeswr yn dal i allu hawlio arian cyhoeddus a gall geisio terfynu eu budd-daliadau. Os yw hyn yn digwydd, gall fod o gymorth i anfon llythyr yn egluro beth yw caniatâd Adran 3C, a beth yw hawliau'r goroeswr.

**Adnoddau defnyddiol ar y Rheol Trais Domestig a'r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd:**

- **Hawliau Menywod: Domestic violence and immigration law: the DV rule**
- **Prosiect 17: Destitution Domestic Violence Concession.**

# Cymorth Lloches y Swyddfa Gartref

Gwaherddir ceiswyr lloches rhag cyrchu budd-daliadau lles prif ffrwd a chymorth tai / digartrefedd. Yn y rhan fwyaf o achosion hefyd, cânt eu gwahardd rhag gweithio. Os yw'r cais am loches yn llwyddo (h.y. caniateir statws ffoadur, diogelwch dyngarol, neu ganiatâd i'r unigolyn aros yn ôl disgresiwn), yna fel arfer caiff yr hawl i weithio a hawlio budd-daliadau prif ffrwd.

Tra bo'r cais am loches yn cael ei brosesu, efallai y bydd yn gymwys i gael cymorth llety a/neu gynhaliaeth gan y Swyddfa Gartref.

## Cymorth Adran 95

Dan adran 95 *Deddf Mewnfudo a Lloches 1999*, mae gan geiswyr lloches diymgeledd hawl i wneud cais am lety a/neu gynhaliaeth gan y Swyddfa Gartref tra bo'r cais am loches ac unrhyw apêl ddilynol yn cael eu hystyried.

I gael gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd a hyd cymorth adran 95, gweler taflen ffeithiau'r Asylum Support Appeals Project yma.

## Cymorth Adran 98

Gall gymryd sawl wythnos i'r Swyddfa Gartref brosesu ceisiadau am gymorth adran 95. Mae cymorth adran 98 yn fath o gymorth dros dro a ddarperir i geiswyr lloches sy'n ymddangos yn ddiymgeledd ac sy'n aros am benderfyniad ar eu cais am gymorth lloches adran 95. Gweler taflen ffeithiau Asylum Support Appeals Project ar gymorth adran 98 yma.

## Cymorth Adran 4 i Geiswyr Lloches y mae eu Hawliau Apêl wedi'u Disbyddu (gwrthodwyd)

Gallai fod gan geiswyr lloches diymgeledd sydd wedi disbyddu eu holl hawliau apêl gael cymorth gan y Swyddfa Gartref o hyd dan adran 4 *Deddf Mewnfudo a Lloches 1999*. I gael gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd a hyd cymorth adran 4, gweler taflen ffeithiau'r Asylum Support Appeals Project yma.

## Ceiswyr Lloches sy'n oroeswyr Cam-drin Domestig

Er bod y lefel o gynhaliaeth a ddarperir drwy gymorth lloches yn isel a bod llety fel arfer yn cael ei ddarparu ar sail 'dim dewis', mae'n bwysig nodi bod y llety a ddarperir gan y Swyddfa Gartref *yn gorfod bod yn ddigonol i anghenion y ceisiwr lloches ac unrhyw ddibynyddion*. Rhaid cymryd mesurau arbennig felly pan fydd ceisiwr lloches yn datgelu cam-drin domestig.

Mae'r daflen ffeithiau hon gan y Asylum Support Appeals Project (ASAP) yn nodi rhai o'r pwyntiau allweddol yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfer darparu cymorth lloches i oroeswyr cam-drin domestig, ac yn pwysleisio hefyd bod goroeswyr yr hyn a elwir yn gam-drin ar sail 'anrhydedd', fel Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Phriodas dan Orfod, hefyd yn cael eu cydnabod o fewn y diffiniad o gam-drin domestig. Mae'r canllawiau hefyd yn pennu bod unrhyw angen am gefnogaeth arbenigol i blant i'w helpu i ymadfer o effaith cam-drin domestig, yn gorfod cael ei ystyried wrth bennu'r hyn sy'n addas.

Nodir rhai o'r pwyntiau allweddol yma, ond fe'ch cynghorir i ddarllen taflen ffeithiau'r Prosiect Apeliadau Cymorth Lloches a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref yn llawn.

**I oroeswyr sydd eisoes yn derbyn cymorth lloches**

- Pan fydd yn gwneud datgeliad i'r Swyddfa Gartref, dylai menyw gael ei chredu, heb y gofyniad i gael unrhyw dystiolaeth ategol o gam-drin domestig.
- Rhaid i ddarparwyr Llety'r Swyddfa Gartref gynnig llety amgen **diogel ar unwaith**.
- **Rhaid** i unrhyw lety amgen fod yn **addas i anghenion y fenyw ac unrhyw blant**. Gall hyn olygu ei bod yn cael llety yn agos at wasanaethau arbenigol fel gwasanaethau ar gyfer menywod Du a lleiafrifol sydd wedi dioddef cam-drin neu ganolfan Argyfwng Trais.
- Dylid cyfeirio menyw at wasanaeth cam-drin domestig arbenigol am gyngor a chymorth.
- Dylai'r Swyddfa Gartref **weithredu ar argymhellion unrhyw ymgynghorydd arbenigol o ran opsiynau llety diogel**.
- Cydnabyddiaeth y **gallai menyw ddymuno aros yn ei llety presennol** ac y gallai fod angen i'r Swyddfa Gartref **ystyried ail-leoli'r cyflawnwr**.
- Cydnabyddiaeth y gallai menyw ddymuno aros yn ei hardal bresennol oherwydd, er enghraifft, fod ganddi blant mewn ysgolion lleol a rhwydweithiau cymorth eraill.
- **Ni chaniateir i ddarparwr llety ddisgwyl i oroeswr ddychwelyd i letya gyda chyflawnwr y cam-drin dan unrhyw amgylchiadau.**

**I oroeswyr sydd angen cymorth lloches ac sydd â chais gweithredol**

- Ni ddylai fod yn ofynnol dan unrhyw amgylchiadau i fenyw ddarparu tystiolaeth ei bod yn diymgeledd ar y cam cychwynnol yn dilyn datgeliad.
- Ni ddylid byth gofyn i fenyw geisio tystiolaeth ei bod yn ddiymgeledd gan gyflawnwr.
- Dylid credu menyw pan fydd yn gwneud datgeliad ac ni ddylai fod angen tystiolaeth ategol o gam-drin domestig at ddibenion cymorth.
- Cydnabyddiaeth os yw arhosiad menyw mewn llety yn arwain at risg o gam-drin domestig, yna nad yw'r llety hwnnw'n ddigonol, ac y bydd y fenyw ym mhob amgylchiad arferol yn gymwys am lety wedi'i gyllido gan y Swyddfa Gartref.

**I fenywod sy'n gwneud cais am gymorth adran 4**

- Does dim ymrwymiad penodol gan y Swyddfa Gartref i letya menywod mewn llety amgen diogel cyn cadarnhau eu cymhwysedd ar gyfer cymorth.
- Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n pennu os yw'r dioddefwr yn geisiwr lloches aflwyddiannus ac felly'n anghymwys i dderbyn cymorth dan adran 95 neu 98, mae'n bosibl serch hynny y bydd yn gymwys i dderbyn llety dan adran 4(2), y gellir hefyd ei ddarparu mewn lloches menywod, neu drwy ddarparu llety cychwynnol fel dewis olaf mewn sefyllfa o argyfwng (h.y. cyn sefydlu asesiad llawn o gymhwysedd adran 4).

## Llety lloches menywod

Mae'r canllawiau'n egluro y gellir darparu cymorth adran 98 (interim) i fenywod nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu lletya gan y Swyddfa Gartref, ond sy'n gymwys am gymorth adran 95 drwy ddarparu llety mewn lloches menywod. Yn yr un modd, os yw menyw yn geisiwr lloches sydd wedi'i gwrthod a all fod yn gymwys am gymorth adran 4, gall hefyd gael llety mewn lloches menywod yn dilyn datgeliad.

**Cwestiwn: Os yw goroeswr eisoes mewn lloches menywod, a thra'i bod yn y lloches menywod yn penderfynu gwneud cais am loches ac yn gwneud cais am gymorth adran 95/98, a fyddai'n rhaid i'r Swyddfa Gartref gyllido'r lle yn y lloches menywod?**

**Ateb gan Asylum Support Appeals Project:** Byddai, os yw'r goroeswr yn gymwys am gymorth adran 95/98 byddai'n rhaid i'r Swyddfa Gartref gyllido'r lle yn y lloches menywod os mai dyma'r llety mwyaf priodol i ddiwallu ei hanghenion. Mae'n debyg y byddai'n ymrwymo i wneud hyn o'r pwynt y byddai'r cyllid lloches gwreiddiol yn dod i ben. Os byddai'r cyllid lloches gwreiddiol yn benagored, mae'n debygol y byddai angen i'r lloches menywod eirioli y byddai'r Swyddfa Gartref yn ymgymryd â chyllido cyn gynted â phosibl gan fod y cyllid gwreiddiol yn fesur brys / interim yn unig.

## Adnoddau defnyddiol ar hawliau ceiswyr lloches a cheiswyr lloches y mae eu hawliau i apelio wedi dod i ben

- **Gweminar Asylum Support Appeals Project:** An Introduction to Asylum Support for Survivors of Domestic Abuse. Ar gael yma: https://asaproject.clickmeeting.com/webinar-recording/fRL973aa2.

  Gweler **Atodiad 2** am y sleidiau hyfforddi a ddefnyddir yn y gweminar, yn ogystal â dogfennau polisi cysylltiedig a deunyddiau eraill.

  Mae'r Asylum Support Appeals Project hefyd wedi cynhyrchu cyfres o daflenni ffeithiol ar hawliau ceiswyr lloches a'r prosesau lloches: ar gael ar eu gwefan yma. Yn benodol, gweler y daflen ffeithiau Asylum Support for Survivors of Domestic Abuse.

  Mae ganddynt linell gymorth hefyd – **020 3716 0283** – sy'n gweithredu dydd Llun, Mercher a Gwener rhwng 14:00 a 16:00.

- **Canllawiau'r Swyddfa Gartref:** Domestic abuse: responding to reports of domestic abuse from asylum seekers.

- **Taflen ffeithiau'r Cyngor Ffoaduriaid:** Asylum Support

**Noder: Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches**

Os yw ceisiwr lloches yn ymddangos dan 18 oed ac ar ei ben ei hun, dylai gael cymorth dan ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (gweler yr adran ar Gymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol). Nid yw cymorth y Swyddfa Gartref yn gymwys. Gweler taflenni Llywodraeth Cymru ar gynorthwyo plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches yma.

# Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl: Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

Gall goroeswyr masnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern wneud cais am ganiatâd i aros yn ôl disgresiwn (ac felly gael mynediad at fudd-daliadau, yr hawl i weithio ac astudio) os, yn dilyn atgyfeiriad at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (National Referral Mechanism), byddant yn derbyn 'penderfyniad sail ddiymwad' os ydynt yn oroeswyr masnachu pobl. Yn ystod y cyfnod y byddant yn aros am y penderfyniad, ac am o leiaf 45 diwrnod yn dilyn hynny, mae ganddynt hawl i gymorth arbenigol wedi'i gynllunio i'w helpu i wella.

## Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM)

Dylid atgyfeirio'r rheini yr amheuir eu bod yn oroeswyr masnachu pobl i'r NRM. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud, bydd yr Awdurdod Cymwys Sengl (y corff yn y DU sy'n gwneud penderfyniadau am unigolion a gaiff eu hatgyfeirio fel goroeswyr caethwasiaeth fodern posibl) yn gwneud "penderfyniad sail resymol", fel arfer o fewn pum diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad. Mae "penderfyniad sail resymol" cadarnhaol yn golygu bod yr Awdurdod yn "amau ond yn methu profi" bod unigolyn yn oroeswr caethwasiaeth fodern posibl. Mae hyn yn galluogi'r unigolyn i gael cymorth amrywiol, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i lety a chynhaliaeth. Caiff y cymorth hwn ei ddarparu gan Fyddin yr Iachawdwriaeth a/neu sefydliadau partner, a bydd yn parhau tan y caiff "penderfyniad sail ddiymwad" ei wneud (dim cyn 45 diwrnod ar ôl y penderfyniad "sail resymol").

Mae "penderfyniad sail ddiymwad" yn pennu 'yn ôl pwysau tebygolrwydd' a oes sail ddigonol i benderfynu bod yr unigolyn yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern. Yn dilyn penderfyniad sail ddiymwad cadarnhaol, bydd goroeswyr yn derbyn o leiaf 45 diwrnod calendr o gymorth yn ystod y cyfnod cymorth symud ymlaen. Yn ystod y cyfnod hwn disgwylir iddynt benderfynu a ydynt am ddychwelyd i'w gwlad wreiddiol neu wneud cais am ganiatâd i aros yn ôl disgresiwn.

Gweler Canllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar Gaethwasiaeth Fodern .

**Noder mai dim ond 'sefydliadau ymatebwr cyntaf' sy'n cael atgyfeirio i'r NRM.** Mae'n ddyletswydd arnynt i atgyfeirio os ydynt yn credu bod yr unigolyn yn ddioddefwr masnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern posibl.

Y gwasanaethau arbenigol VAWDASV sy'n 'sefydliadau ymatebwr cyntaf' yng Nghymru yw **BAWSO** a **Llwybrau Newydd**.

**Os oes gennych reswm i gredu bod goroeswyr rydych chi'n eu cynorthwyo yn ddioddefwyr masnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern, gallwch ffonio Llinell**

**Gymorth Byddin yr Iachawdwriaeth ar 0800 808 3733, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.**

**Neu gallwch gysylltu â BAWSO / Llwybrau Newydd yn uniongyrchol.**

Mae awdurdodau lleol, yr heddlu, Byddin yr Iachawdwriaeth, Cymorth i Fudwyr, Barnardo's, a'r Cyngor Ffoaduriaid hefyd yn sefydliadau ymatebwr cyntaf. Ceir rhestr lawn o sefydliadau ymatebwr cyntaf yng Nghymru a Lloegr ar wefan y Swyddfa Gartref yma.

## Adnoddau defnyddiol ar y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

- Byddin yr Iachawdwriaeth – Supporting Survivors
  Llinell Gymorth 24/7 Byddin yr Iachawdwriaeth - **0800 808 3733**
- Rhwydwaith NRPF – Victims of trafficking and modern slavery
- **Unseen - UK Modern Slavery 24/7 Helpline – 0800 01 21 700**
- Rights of Women – Trafficking and the National Referral Mechanism

# Codi'r amod NRPF trwy gais 'newid amod caniatad'

Gall ymfudwyr sydd â chaniatâd i aros o dan y llwybrau teulu a hawliau dynol wneud cais i godi'r cyfyngiad NRPF trwy wneud cais 'newid amodau' os bu newid yn eu hamgylchiadau ariannol sy'n eu rhoi mewn perygl o fod yn ddiymgeledd.

Gweler rhagor o wybodaeth am hyn gan Project 17 yma.

### Deiliaid Fisa 'British National (Overseas)' o Hong Kong

Ym mis Mawrth 2021 newidiodd Llywodraeth y DU y Rheolau Mewnfudo i alluogi trigolion Hong Kong sy'n dal fisa 'British National (Overseas)' i wneud cais am newid amodau i'w fisa er mwyn codi'r amod NRPF os ydyn nhw'n profi, neu mewn perygl o brofi, diymgeledd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am statws a fisa 'British National (Overseas)' ar wefan yr NRPF Network.

*Nodyn i'ch atgoffa: mae'n hanfodol bod goroeswyr yn cael cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr / ymgynghorydd cymwys cyn gwneud unrhyw geisiadau i newid math, neu gyflwr, eu caniatâd i aros.*

## Siart llif opsiynau cymorth

Derbyn atgyfeiriad ar gyfer goroeswr sy'n destun rheolaeth fewnfudo (cyfeirir hyn yn aml fel “cael NRPF”)

Ystyriwch yr hyn sy'n hysbys am statws mewnfudo'r goroeswr a threfnwch apwyntiad gydag ymgynghorydd mewnfudo rheoledig neu gyfreithiwr ar y cyfle cyntaf:

- a allent fod yn gymwys i wneud cais am ILR o dan y Rheol DV (ac felly am y DDVC), neu i godi'r amod NRPF?
- a oes ganddyn nhw hawliad lloches yn yr arfaeth ac a ydyn nhw'n cyrchu Cymorth Lloches y Swyddfa Gartref?
- a allent fod yn gymwys i wneud cais am statws sefydlog neu wedi'i setlo ymlaen llaw o dan yr EUSS?
- ystyriwch hefyd a oes tystiolaeth o gaethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl?

Os ymddengys yn debygol y gall y goroeswr fod yn gymwys ar gyfer Rheol DV a'r DDVC, neu i godi'r amod NRPF, neu ar gyfer Cymorth Lloches, yr EUSS, neu atgyfeiriad i'r NRM, dilynwch yr arweiniadau hyn yn gyntaf trwy:

- gysylltu â Bawso neu New Pathways (ar gyfer yr NRM);
- gysylltu â Gwasanaeth Cyngor Mewnfudo ‘Citizens’ yr UE (ar gyfer yr EUSS);
- gysylltu â llinell gymorth y Asylum Support Appeals Project helpline;
- drefnu apwyntiad gyda chyfreithiwr mewnfudo ar gyfer Rheol DV / DDVC neu godi'r amod NRPF.

**PEIDIWCH** â rhoi cyngor i’r goroeswr sy’n awgrymu y gallai fod yn gymwys am ganiatad amhenodol i aros drwy’r Rheol Trais Domestig, yr NRM, nac unrhyw lwybr arall. Yn hytrach, anogwch a chefnogwch y goroeswr i fynd i apwyntiad gyda chyfreithiwr mewnfudo i drafod eu statws mewnfudo a’u hopsiynau.

Fodd bynnag, os yw’r cyfreithiwr mewnfudo yn canfod bod yr unigolyn yn gymwys i wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros dan y Rheol Trais Domestig, a bod y goroeswr yn penderfynu gwneud hynny, gallwch gynorthwyo’r goroeswr gyda chais am y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd. Yn yr un modd gallwch eu helpu i gwblhau ceisiadau am Gymorth Lloches (Asylum Support), ond yn y ddau achos, argymhellir eich bod yn cael y ceisiadau wedi eu gwirio gan arbenigwr.

Ymhob achos arall lle ymddengys nad yw'n debygol y byddant yn gymwys am unrhyw un o'r opsiynau uchod, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol **ar unwaith** i ofyn am asesiad o anghenion gofal a chymorth a darpariaeth cymorth interim ar sail 'ddi-ragfarn', gan nodi'r ddeddfwriaeth berthnasol (gweler y llythyrau templed yn Rhan 3). Gwnewch yn siŵr fod hwn **yn ysgrifenedig** (mae'n iawn ffonio gyntaf ond cofiwch ddilyn hyn ar unwaith gydag ebost / llythyr yn ailadrodd yr hyn y gofynnwyd amdano / cytunwyd arno).

**Os yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwrthod cynnal yr asesiad, ystyriwch gwblhau llythyr herio protocol cyn dwyn achos gan fod hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon (gweler Rhan 4 – Herio'r Gwasanaethau Cyhoeddus).**

Cyn gynted ag y bydd gennych chi ddigon o wybodaeth am sefyllfa'r goroeswr, dilynwch hyn gyda llythyr at y rheolwr gwasanaethau cymdeithasol yn nodi anghenion y goroeswr (e.e. llety – os felly, lloches menywod neu wasgaredig; cynhaliaeth; unrhyw gostau eraill). Nodwch y dyletswyddau perthnasol dan y ddeddfwriaeth sy'n golygu bod rhwymedigaeth arnynt i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth hynny (gweler y llythyrau templed yn Rhan 3).

**Os nad ydych yn cael penderfyniad cadarnhaol gan y gwasanaethau cymdeithasol a/neu eu bod yn gwrthod diwallu'r anghenion gofal a chymorth (ac nid ydynt wedi'u hatgyfeirio at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol neu fod Cymorth Lloches wedi'i wrthod), mynnwch esboniad ysgrifenedig o'u penderfyniad. Os ymddengys nad oes unrhyw gyfiawnhad rhesymol dros wrthod cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, ystyriwch a yw'r gwasanaethau cymdeithasol wedi torri eu dyletswyddau i asesu cymhwysedd a/neu ddarparu cymorth dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Os felly, efallai y gallech ystyried cwblhau llythyr protocol (PAP) i'w herio (gweler adran 4: Herio'r Gwasanaethau Cyhoeddus).**